*Cyngor Cymuned Llanllwchaearn Community Council*
*Haulfan, Llanarth, Ceredigion. SA47 0NH*
*Clerc/Clerk: Shan Gwyn Phone/Ffon: 01545 580818*

**Cofnodion Cyfarfod 15.02.2021 - drwy 'Zoom'**

**Yn Bresennol**
Y Cynghorwyr Gill Hearne, Meleri Richards, Gareth Ioan, , Euros Lloyd, Dai Morgan, Mel Jones a'r clerc.

**Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Silyn Roberts a Gareth Lloyd.

**Cofnodion**
Cynigiwyd cofnodion mis Ionawr yn gywir gan y Cyng Meleri Richards ac ategwyd hyn gan y Cyng Gareth Ioan.

**Materion yn Codi o'r Cofnodion**
*Cynllun mesur cyflymdra traffig* Mae pedwar ymateb ychwanegol wedi cyrraedd oddi wrth drigolion Pentre'r Bryn mewn ymateb i'r holiadur ynglyn a gosod pafin yn y pentref. Mae'r Rhingyll Ian Price wedi cadarnhau y bydd y fan gorfodi yn ymweld a'r pentref wedi iddynt gael caniatád gan aelwyd breifat i osod y fan ar y tir. Mi fydd y clerc yn dilyn i fyny ein cais am gael Swyddog o'r Cyngor Sir i ddod i drafod y syniad o'r pafin ynghyd a sefydlu pwy fyddai yn gorfod talu'r costau o'r deilliaid yn rhoi tir.

*Grantiau* Derbyniwyd llythyron o ddiolch oddi wrth Ysgol a Ffrindiau Ysgol Bro Sion Cwilt ynghyd ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Wnaeth Dosbarth Gwaith Llaw Sefydliad y Merched Cross Inn a 'Llanllwchaern Short Mat Bowls' hefyd gydnabod nad ydynt eto wedi gwario grant 2020 oherwydd cyfyngiadau 'COVID'.

**Adroddiad Ariannol**
Derbyniwyd adroddiad ariannol mis Ionawr yn gywir a rhoddwyd caniatád i dalu'r canlynol:-

| | |
|---|---|
| Mr Geraint Lloyd | £ 412.00 |
| Archwiliad Cymru | £ 296.75 |
| Cyng G Hearne | £ 200.00 |
| SSE | £4,234.94 |

**Gohebiaeth**
*Un Llais Cymru* Nodwyd fod y Gymdeithas wedi ethol Cadeirydd Newydd sef y Cyng Mick Theodoulau, Cyngor Tref Porth Tywyn a Pen-bre. Mae Alun Harries hefyd wedi ei apwyntio fel Swyddog Datblygu newydd ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru.

*Shân Gwyn* Mi wnaeth y clerc gyflwyno llythyr o ymddiswyddiad o'r swydd o glerc a swyddog cyfrifoldeb ariannol. Estynnwyd diolch gwresog iddi am ei gwaith dros y blynyddoedd gan ei llongyfarch ar ei dyrchafiad yn ei swydd gyda'r Adran Gwaith a

Phensiynau.Mi fydd y clerc yn trefnu i'r swydd gael ei hysbysu yn y 'Cambrian News', Y Gambo a drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

**Ceisiadau Cynllunio**
A201114 Charlies Field, Cei Newydd – Newid defnydd ar gyfer gosod Pods Eco, Chalet, ardal gwersylla a bloc toiledau. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais.

**Unrhyw Fater Arall**
*Coed ger y man chwarae* Wnaeth y Cyng Gareth Ioan adrodd ei fod wedi cysylltu gyda Dylan Jones unwaith eto mewn ymdrech i gael y coed wedi eu torri cyn dechrau'r tymor nythu.

*Golau Stryd, Pentre'r Bryn* Mi fydd y clerc yn cysylltu gyda Simon Bray o'r Cyngor Sir er mwyn sefydlu a oes modd i'r golau newydd yn lle'r un presennol ger safle'r hen ciosg.